Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

**Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wedi ymrwymo i warchod eich gwybodaeth bersonol a pharchu eich preifatrwydd.**

Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi, sut rydym yn ei defnyddio, yr amodau cyfyngedig lle byddwn yn ei datgelu i eraill a sut rydym yn ei chadw’n ddiogel.

## Gwarchod eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwarchod a rheoli eich gwybodaeth bersonol. Rydym wedi sefydlu mesurau diogelwch ffisegol, technegol a sefydliadol i gynorthwyo gyda hyn. Dyma rai o’r mesurau rydym wedi’u rhoi ar waith:

- mabwysiadu mesurau diogelwch cyfrifiadurol fel waliau tân, amgryptio, protocolau trosglwyddo diogel, profion treiddio, manylion diogelwch cymhleth, protocolau dilysu aml-ffactor a rheoli mynediad, gan gynnwys cyfyngu ar fynediad gan ddibynnu ar gyfrifoldebau swydd
- ardystiad Cyber Essentials a chydymffurfio parhaus yn erbyn fframweithiau diogelwch a gydnabyddir gan y Llywodraeth a diwydiant
- fframwaith cynhwysfawr o bolisïau perthnasol i ddiogelu data, diogelwch gwybodaeth a rheoli cofnodion
- sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth rheolaidd i’n cyflogeion i sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth ar draws y sefydliad
- cadw cofrestr diogelu data sy’n nodi’r holl wybodaeth bersonol sy’n cael ei chadw ac sy’n cynnwys manylion fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, lleoliad, mesurau diogelwch a chadw
- trefniadau rhannu data a chymalau perthnasol mewn contractau sydd â goblygiadau data personol
- hysbysiadau preifatrwydd fel bod unigolion yn ymwybodol o ba wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw a pham
- cynnal asesiadau effaith diogelu data i adnabod risgiau ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data, a
- data a gedwir yn y DU a heb eu trosglwyddo y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Os oes gofyniad i drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i AEE, dim ond i wledydd y mae eu deddfau diogelu data wedi’u hasesu fel rhai digonol gan y Comisiwn Ewropeaidd fyddai trosglwyddo’n cael ei ganiatáu, a lle mae mesurau diogelu digonol yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelu data perthnasol.

Rydym yn ceisio bod mor agored â phosib o ran rhoi mynediad i chi at eich gwybodaeth bersonol. O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawliau penodol sydd wedi’u hesbonio yn yr adran ‘Mynediad at wybodaeth bersonol’.

Rydym hefyd am fod yn glir ynghylch yr hyn a allai fod wedi’i gynnwys yn y categorïau gwybodaeth bersonol, felly rydym wedi cynnwys disgrifiadau o’n categorïau o wybodaeth bersonol.

### Sut i ddefnyddio'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Mae'r ffordd rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol yn dibynnu ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym yn adolygu'r gwasanaeth sy'n berthnasol i chi ac yn dewis yr opsiwn mwyaf priodol o blith y canlynol:

Ymwelwyr â'n gwefan a'r rhai sy'n derbyn ein cyhoeddiadau a swyddi gwag

Rhanddeiliaid, pobl sy'n dod i gynadleddau/digwyddiadau, yn ymateb i ymgyngoriadau ac arolygon, pobl sy'n cysylltu â ni'n uniongyrchol, (gan gynnwys datgeliadau, ceisiadau am wybodaeth a chwynion) ac aelodau'r cyhoedd

Cynghorwyr, ymgynghorwyr, arbenigwyr proffesiynol eraill, cyflenwyr a chontractwyr

Dysgwyr a staff o fewn darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, a sefydliadau eraill yr ydym yn/wedi gweithio gyda hwy (yn gyfredol ac yn y gorffennol)

Cyflogeion (presennol a blaenorol), Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau ac Ymgeiswyr am Swyddi

Ymwelwyr â'n heiddo

Defnyddwyr ein gwasanaethau TG, gan gynnwys cyfleusterau rhannu ffeiliau'n ddiogel, eduroam, wi-fi ar gyfer gwesteion, a chyfleusterau cyfarfodydd ar-lein

### Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Mynediad at wybodaeth bersonol

Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Cwynion am y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol

Dolenni at wefannau eraill

Newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd

## Ymwelwyr â'n gwefan a'r rhai sy'n derbyn ein cyhoeddiadau a swyddi gwag

## Ymwelwyr â'n gwefan

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan ydych yn ymweld â www.medr.cymru bydd ein darparwr gwe-letya WPEngine yn cofnodi eich cyfeiriad IP sy'n cael ei ddosbarthu fel gwybodaeth bersonol. Hefyd byddant yn cofnodi eich math o borwr (e.e. Internet Explorer, Firefox, Google Chrome) a'r wefan gyfeirio (os mai'r wefan wnaethoch ymweld â hi ddiwethaf ddarparodd ddolen atom ni).

Os byddwch yn defnyddio ein swyddogaeth chwilio, bydd y term chwilio a gyflwynwyd a'r amser a'r dyddiad y'i cyflwynwyd yn cael eu logio ochr yn ochr â'ch cyfeiriad IP.

Os byddwch yn defnyddio un o'n ffurflenni ar y we, bydd y cyfeiriad IP yn cael ei gofnodi ochr yn ochr â'r data rydych chi wedi'u cyflwyno'n wirfoddol. Dyma ein ffurflenni ar y we:

- ceisiadau rhyddid gwybodaeth
- tanysgrifio i'n cyhoeddiadau neu swyddi gwag
- cwynion

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis at ddibenion profiad defnyddwyr, er enghraifft i gadw gosodiadau dewis iaith.

Rydym yn defnyddio data mewn ffeiliau cofnodi i lunio ystadegau defnydd o'r wefan ac i olrhain camgymeriadau. O dan amgylchiadau arferol, nid ydym yn defnyddio cyfeiriadau IP i adnabod ymwelydd nac i olrhain gweithgarwch ymwelydd ar y wefan. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gwneud hyn er mwyn adnabod gweithgarwch sy'n camddefnyddio.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw at ddibenion ein buddiannau cyfreithlon mewn darparu gwasanaethau a systemau TG sy'n ddiogel ac yn gweithio'n effeithiol.

Cedwir cofnodion am 12 mis cyn eu dileu'n barhaol.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Cedwir ffeiliau log yn ddiogel mewn systemau sydd â mynediad dim ond i'n cyflogeion a'n darparwr gwe-letya y mae arnynt angen mynediad er mwyn cyflawni cyfrifoldebau eu swydd/cyfrifoldebau cytundebol.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw gorff arall ac eithrio pan fo hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu warchod ein gwasanaethau neu eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gwneud cais i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfreithlon, rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn pwyso a mesur unrhyw effaith bosib arnoch chi a'ch hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Os oes gennych chi unrhyw bryderon am brosesu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Cofiwch, os byddwch yn gwrthwynebu, y gall hyn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn i chi.

## Pobl sy'n derbyn ein cyhoeddiadau a swyddi gwag

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan rydych yn tanysgrifio i dderbyn ein cyhoeddiadau neu hysbysiadau am swyddi gwag, byddwn yn cofnodi eich gwybodaeth gyswllt bersonol fel eich enw a'ch cyfeiriad e-bost.

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth gyswllt i ddarparu i chi'r gwasanaethau rydych wedi'u dewis. Nid oes raid i chi roi'r manylion hyn i ni ond efallai na fyddwn yn gallu darparu'r gwasanaethau rydych wedi gofyn amdanynt os byddwch yn dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw'r caniatâd rydych chi wedi'i roi'n rhydd wrth danysgrifio i'r gwasanaethau hyn.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth y gofynnwyd amdano.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn dileu eich gwybodaeth bersonol wrth dderbyn eich cais.

Hefyd mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol, i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir, ac i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol.

## Rhanddeiliaid, pobl sy'n dod i gynadleddau/digwyddiadau, yn ymateb i ymgyngoriadau ac arolygon, pobl sy'n cysylltu â ni'n uniongyrchol (gan gynnwys datgeliadau, ceisiadau am wybodaeth a chwynion) ac aelodau'r cyhoedd

## Rhanddeiliaid

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Rydym yn cadw eich manylion cyswllt fel enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad gohebu a rhif ffôn gan fod yr wybodaeth yma'n hanfodol i gynnal ein busnes. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y manylion cyswllt hyn yn fanylion proffesiynol neu waith ond, yn achlysurol, byddant yn fanylion preifat neu gartref.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw tasg gyhoeddus, sy'n cynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y

Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau dirprwyo penodol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg gyhoeddus ac fel y penderfynir gan y polisi cadw priodol.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Hefyd mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

## Pobl sy'n dod i gynadleddau/digwyddiadau

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Os ydych chi'n dod i gynhadledd neu ddigwyddiad, bydd rhaid i ni brosesu eich manylion cyswllt fel eich enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad gohebu a rhif ffôn er mwyn rhoi gwybodaeth gyson i chi am y trefniadau. Hefyd efallai y byddwn yn cadw'r wybodaeth sy'n ofynnol i wneud addasiadau rhesymol fel gofynion o ran deiet, mynediad a'r iaith Gymraeg.

Weithiau rydym yn defnyddio Eventbrite i reoli ein cynadleddau a'n digwyddiadau. Mae Eventbrite yn prosesu data (gan gynnwys unrhyw ddata personol a gyflwynir drwy archebu un o'n digwyddiadau) y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Dim ond gwybodaeth rydych chi'n fodlon iddi gael ei phrosesu fel hyn ddylech chi ei chyflwyno. Darllenwch bolisi preifatrwydd Eventbrite am ragor o wybodaeth. Cewch gysylltu â threfnydd y digwyddiad yn uniongyrchol os yw'n well gennych chi beidio â defnyddio Eventbrite.

Fel rheol rydym yn darparu rhestr o'r cynadleddwyr fel rhan o becyn y gynhadledd neu'r digwyddiad. Byddwn yn rhoi cyfle i chi ddynodi a ydych eisiau i'ch enw, eich teitl swydd a'ch sefydliad gael eu cynnwys ar y rhestr o gynadleddwyr.

Weithiau rydym yn tynnu lluniau anffurfiol yn ystod y gynhadledd neu'r digwyddiad a gyhoeddir ar ein gwefan neu ein cyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn rhoi cyfle i chi nodi hynny os nad ydych yn dymuno cael eich cynnwys mewn unrhyw luniau.

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r math yma o wybodaeth yn dibynnu ar natur y dasg. Gallai'r sail gyfreithlon fod fel a ganlyn:

- I'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus gan gynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil

(Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau dirprwyo penodol.

- I fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a Mesur y Gymraeg 2011.
- Rydych chi wedi rhoi eich caniatâd wrth danysgrifio i'n cynhadledd neu ein digwyddiad.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg gyhoeddus neu'r rhwymedigaeth gyfreithiol ac fel y penderfynir gan y polisi cadw priodol.

Oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd i ni gadw eich manylion cyswllt i'ch gwahodd i gynadleddau a digwyddiadau yn y dyfodol, byddwn yn dileu eich manylion ar ôl i'r gynhadledd neu'r digwyddiad ddod i ben.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Pan rydym yn dibynnu ar ganiatâd i gadw eich manylion cyswllt, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn dileu eich gwybodaeth bersonol wrth dderbyn eich cais. Hefyd mae gennych hawl i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol.

Os ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni ein tasgau cyhoeddus, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

## Ymateb i ymgyngoriadau ac arolygon

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan fyddwch yn ymateb i ymgynghoriad neu arolwg, efallai y byddwn yn prosesu eich manylion cyswllt i gysylltu â chi i drafod eich ymateb.

Byddwn yn prosesu'r farn neu'r safbwyntiau y byddwch yn eu rhoi wrth ymateb er mwyn llywio datblygiad polisi, canllawiau neu waith rheoleiddio arall a drafodir yn yr ymgynghoriad neu'r arolwg.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r math hwn o wybodaeth yw tasg gyhoeddus sy'n cynnwys ein cyfrifoldebau fel y prif gorff sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg drydyddol

ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys Dogfen Fframwaith CNLIC: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau gan gynrychiolwyr penodol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i unrhyw ddiben arall, a byddwn yn cadw eich holl fanylion gyhyd ag y bo angen i gyflawni'r tasgau cyhoeddus, ac yn unol â'r hyn a bennir yn y polisi perthnasol ar gadw gwybodaeth.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio'n ddiogel ar ein systemau TG, a dim ond ein cyflogeion fydd yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth honno, ar sail gyfyngedig 'angen i wybod'.

Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad neu ganlyniadau'r arolwg ac, mewn rhai achosion, yr ymatebion eu hunain. Pe bai'n well gennych i'ch ymatebion aros yn ddienw, bydd yr ymarfer ymgynghori neu'r arolwg yn rhoi arweiniad ichi ar hynny.

Os byddwn yn defnyddio trydydd parti i reoli ein hymgynghoriadau neu ein harolygon, byddwn yn nodi hyn yn glir ac yn cysylltu ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd perthnasol yn rhan o'r broses.

### Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn inni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Mae gennych hefyd hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad mewn modd agored a theg, ac yn rhoi esboniad clir o'n penderfyniad a'ch opsiynau os byddwch yn anghytuno â'n penderfyniad.

## Pobl sy'n cysylltu â ni'n uniongyrchol (gan gynnwys datgeliadau, ceisiadau am wybodaeth a chwynion) ac aelodau'r cyhoedd

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan rydych yn ein ffonio, rydym yn nodi eich manylion cyswllt a gwybodaeth am destun eich galwad er mwyn i ni allu rhoi sylw i'ch ymholiad. Nid ydym yn cofnodi nac yn monitro galwadau ffôn ar wahân i negeseuon llais. Efallai y caiff eich rhif ffôn ei gadw ar ein system gyfathrebu os yw gosodiadau eich ffôn yn galluogi adnabod y galwr.

Efallai y bydd unrhyw negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon atom yn cael eu monitro am resymau diogelwch a chydymffurfiaeth. Efallai y cedwir negeseuon e-bost ar ein systemau TG tra mae eich ymholiad yn cael sylw.

Pan rydym yn derbyn datgeliad, cais am wybodaeth neu gŵyn, efallai y byddwn yn cofnodi manylion y cais, gan gynnwys y manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall rydych chi wedi'i chynnwys yn y cais.

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r math yma o wybodaeth yn dibynnu ar natur y cais. Gallai'r sail gyfreithlon fod fel a ganlyn:

- I'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus gan gynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau dirprwyo penodol.
- I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol fel Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dim ond er mwyn prosesu'r cais fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i rhoi. Cedwir gwybodaeth bersonol am gyn hired â sy'n ofynnol er mwyn delio â'r ymholiad, neu yn unol â'n polisi cadw os yw hyn yn berthnasol. Mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth am ddatgeliad neu gais am wybodaeth yn cael ei chadw am dair blynedd, a bydd gwybodaeth am gŵyn yn cael ei chadw am ddeng mlynedd ar ôl ei chau. Os bydd yr wybodaeth yn arwain at ymchwiliad i ddarparwr, efallai y cedwir yr wybodaeth am 15 mlynedd ar ôl cau, ond bydd yr wybodaeth bersonol yn cael ei golygu ar ôl deng mlynedd.

## Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi ar sail 'angen gwybod' gyfyngedig.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid i ni rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau neu gyrff statudol eraill os gwnaed datgeliad, cais am wybodaeth neu gŵyn. Bydd ein 'Polisi Mynediad at Wybodaeth' a'r 'Gweithdrefnau Cwynion' yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

Efallai y bydd adegau pan ofynnir i ni rannu gwybodaeth â sefydliad arall os bydd cwyn am Medr ei hun. O dan yr amgylchiadau hyn, fel rheol mae gennym ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth yn unol â'r gyfraith.

Efallai y byddwn yn llunio ac yn cyhoeddi ystadegau sy'n dangos gwybodaeth fel nifer y cwynion neu'r ceisiadau rydym yn eu derbyn, ond nid ar ffurf sy'n galluogi adnabod unrhyw un.

## Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni ein tasgau cyhoeddus, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

# Cynghorwyr, ymgynghorwyr, arbenigwyr proffesiynol eraill, cyflenwyr a chontractwyr

## Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Os ydych yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ni, efallai y byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, fel eich manylion cyswllt, er mwyn llunio

cytundebau. Dylid cynnwys manylion am yr wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu mewn contractau i ddarparu nwyddau neu wasanaethau ond gallant hefyd gynnwys manylion ariannol i wneud taliadau neu wirio hyfywedd ariannol, neu CVs i asesu eich cymwysterau a'ch profiad.

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r math yma o wybodaeth yn dibynnu ar natur y berthynas. Gallai'r sail gyfreithlon fod fel a ganlyn:

- Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract y mae'r testun data'n rhan ohono neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn llunio contract.
- I'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus gan gynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, llythyrau dirprwyo penodol a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.
- I gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (ac unrhyw ddeddfwriaeth sy'n eu disodli), Cyfarwyddeb Gaffael Ewropeaidd 2014/24/EU, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg gyhoeddus ac fel y penderfynir gan y polisi cadw priodol. Cedwir manylion anfonebu a thalu am saith mlynedd oni bai fod rhwymedigaeth i gadw'r wybodaeth am gyfnod hirach er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol fel gofynion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cedwir gwybodaeth am gaffael a chontractau am chwe blynedd ar ôl i'r contract ddod i ben.

## Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi ar sail 'angen gwybod' gyfyngedig.

Efallai y bydd rhaid i ni rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau neu gyrff statudol eraill fel ombwdsmon perthnasol, archwilwyr, Llywodraeth Cymru, WEFO, Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydliadau contractio, ac mae'n ofynnol i'r rhain i gyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

## Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni ein tasgau cyhoeddus, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

## Dysgwyr a staff o fewn darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, a sefydliadau eraill yr ydym yn/wedi gweithio gyda hwy (yn gyfredol ac yn y gorffennol)

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys mathau sensitif o wybodaeth (a elwir hefyd yn gategorïau arbennig o wybodaeth bersonol) i nifer o ddibenion, ee er mwyn llywio a dosbarthu cyllid, datblygu polisi, dadansoddi polisi, ymchwilio neu'n gysylltiedig â'n dyletswyddau ariannol, ein rhwymedigaethau cyfreithiol a'n buddiannau cyhoeddus.

Gall y mathau o wybodaeth bersonol a brosesir gynnwys y canlynol:

- manylion cyswllt
- manylion personol
- teulu, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- manylion ariannol
- manylion addysg a hyfforddiant
- manylion cyflogaeth

Gall y mathau o gategorïau arbennig o wybodaeth bersonol gynnwys y canlynol:

- manylion iechyd corfforol a meddyliol
- tarddiad hiliol neu ethnig
- credoau crefyddol neu eraill
- manylion bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol

Mae llawer o'r wybodaeth a ddelir gennym wedi'i chasglu o ffynonellau eraill, gan gynnwys Jisc, y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), Cyngor Cyllido yr Alban,Y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS), yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau, darparwyr addysg drydyddol, a Llywodraeth Cymru. Dylai'r sefydliadau hyn fod â hysbysiadau casglu'n rhoi gwybod i chi am yr wybodaeth maent yn ei chasglu o bosib, dibenion y casglu, i bwy y datgelir eich gwybodaeth efallai, a'ch hawliau.

Mae gennym gytundebau rhannu data yn weithredol â'r sefydliadau hyn, neu gallai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i brosesu'r wybodaeth hon yn gysylltiedig â'n dyletswyddau ariannol a chyfreithiol.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r math yma o wybodaeth yw i'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus gan gynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ein Cod Rheolaeth Ariannol a Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd/Telerau ac Amodau Cyllid, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau dirprwyo penodol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg gyhoeddus ac fel y penderfynir gan y polisi cadw priodol.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi ar sail 'angen gwybod' gyfyngedig.

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill sydd â chontract i brosesu'r data hyn. Sefydlir contractau neu drefniadau rhannu data penodol.

Fel arall, ni fyddwn ond yn datgelu gwybodaeth i rywun sydd y tu allan i Medr os oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i wneud hynny.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

## Cyflogeion (presennol a blaenorol), Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau ac ymgeiswyr am swyddi

Mae hysbysiadau preifatrwydd ar wahân yn eu lle ar gyfer Cyflogeion, Aelodau'r Bwrdd ac ymgeiswyr am swyddi.

## Aelodau Pwyllgorau

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan rydych yn gwneud cais am ymuno â phwyllgor, rhaid i ni brosesu eich manylion cyswllt, fel eich enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad gohebu a rhif ffôn, a gwybodaeth bersonol arall, gan gynnwys gwybodaeth a gyflwynir yn eich CV. Mae'r wybodaeth hon yn ofynnol er mwyn cynnal proses recriwtio deg, agored a thryloyw ac, mewn rhai meysydd, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw wybodaeth nad oes arnom ei hangen, a byddwn yn dweud wrthych os yw darparu rhywfaint o wybodaeth bersonol yn ddewisol, gan gynnwys os byddwn yn gofyn am eich caniatâd i'w phrosesu.

At ddibenion monitro cydraddoldeb, rydym yn prosesu mathau sensitif o wybodaeth (y cyfeirir ati hefyd fel categorïau arbennig o wybodaeth bersonol), gan gynnwys rhyw, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd ac anabledd. Mae cwblhau'r wybodaeth hon yn ddewisol ac ni fydd yn effeithio ar y broses ddewis.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd arnom angen rhagor o wybodaeth bersonol, gan gynnwys manylion ariannol i wneud taliadau teithio a chynhaliaeth a datganiad o fuddiant. Hefyd, efallai y bydd gennym wybodaeth sy'n ofynnol i wneud addasiadau rhesymol fel gofynion perthnasol i ddeiet, mynediad neu'r iaith Gymraeg.

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r math yma o wybodaeth yn dibynnu ar natur y diben. Gallai'r sail gyfreithlon fod fel a ganlyn:

- I'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus gan gynnwys ein cyfrifoldebau fel prif gorff cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn unol â rhwymedigaethau a ddisgrifir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a lle nodir disgwyliadau gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y Ddogfen Fframwaith Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru: Medr, datganiad Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol, a llythyrau dirprwyo penodol.

- I fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall a byddwn yn cadw eich manylion am gyn hired â sy'n ofynnol i gyflawni'r dasg gyhoeddus neu'r rhwymedigaeth gyfreithiol ac fel y penderfynir gan y polisi cadw priodol. Cedwir manylion talu am saith mlynedd.

Ni chedwir manylion am ymgeiswyr aflwyddiannus am fwy na sydd raid at ddibenion prosesu'r cais. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd ysgrifenedig os ydym yn dymuno cadw eich manylion ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

## Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sy'n cael mynediad iddi ar sail 'angen gwybod' gyfyngedig.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

## Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol i'n galluogi i gyflawni ein tasgau cyhoeddus, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Byddwn yn asesu eich gwrthwynebiad yn agored ac yn deg ac yn esbonio ein penderfyniad yn glir a'ch opsiynau os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad.

# Ymwelwyr â'n heiddo

## Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan rydych yn ymweld â'n heiddo, gofynnir i chi lofnodi ein llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Ochr yn ochr â'ch llofnod bydd eich enw a'ch sefydliad. Cedwir y cofnodion hyn am fis ac wedyn eu dinistrio.

Bydd ymwelwyr, gan gynnwys contractwyr, sy'n derbyn bathodyn diogelwch, yn cynhyrchu cofnod gweithgarwch ar y system mynediad drysau a gynhelir gan y landlord Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff y cofnodion hyn eu hadolygu i ddibenion diogelwch, a'u cadw am 12 mis.

Cyn eich ymweliad, mae'n ofynnol i ni sefydlu a oes gennych chi unrhyw ofynion penodol o ran mynediad neu gefnogaeth, fel ein bod yn gallu gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau eich diogelwch. Efallai y gofynnir i chi lenwi holiadur Cynllun Gadael Brys Personol (PEEP) er mwyn ein helpu ni i wneud trefniadau priodol. Hoffem gadw'r wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i chyflenwi ar gyfer y PEEP ond dim ond os cawn eich caniatâd chi y byddwn yn gwneud hynny. Fel arall, bydd eich gwybodaeth yn cael ei dinistrio ar ddiwedd eich ymweliad.

Mae ein sail gyfreithiol dros brosesu'r math hwn o wybodaeth yn ddibynnol ar natur y diben. Gallai'r sail gyfreithiol gynnwys y canlynol:

- Er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Bod angen prosesu'r wybodaeth i ddibenion ein buddiannau cyfreithiol wrth gadw unigolion yn ddiogel.

Defnyddir camerâu goruchwylio gan y Landlord i warchod diogelwch yr eiddo a diogelwch personol cyflogeion ac ymwelwyr. Arddangosir hysbysiadau o amgylch yr eiddo. Am ragor o wybodaeth am ddelweddau camerâu goruchwylio, cysylltwch â Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Bydd gwybodaeth bersonol am eich PEEP a'r addasiadau rhesymol eraill a wneir mewn perthynas â'ch ymweliad yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau TG a dim ond ein cyflogeion sydd angen mynediad i ymgymryd â chyfrifoldebau eu swydd fydd yn cael mynediad at yr wybodaeth.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gwneud cais i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir.

Wrth inni brosesu  eich gwybodaeth bersonol i ddibenion ein buddiannau cyfreithiol, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi a'ch hawliau, o dan gyfreithiau diogelu data. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Os ydych yn gwrthwynebu, cofiwch y gallai hynny amharu ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn i chi.

## Defnyddwyr ein gwasanaethau TG gan gynnwys cyfleusterau rhannu ffeiliau'n ddiogel, eduroam, wi-fi ar gyfer gwesteion a chyfleusterau cyfarfodydd ar-lein.

### Cyfleusterau rhannu ffeiliau'n ddiogel

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan ydych yn defnyddio ein cyfleusterau rhannu ffeiliau'n ddiogel, rydym yn logio eich cyfeiriad IP sy'n perthyn i'r dosbarth gwybodaeth bersonol. Rydym hefyd yn logio eich math o borwr (e.e. Internet Explorer, Firefox, Google Chrome) a'ch math o ddyfais (e.e. Cyfrifiadur Windows).

Rydym yn cofnodi enwau defnyddwyr a chyfeiriadau IP pawb sy'n ceisio mewngofnodi, boed lwyddiannus ai peidio, neu pa un ai ydynt yn defnyddio enw mewngofnodi dilys ai peidio.

Mae'r gwasanaethau TG hyn ar gael ar ôl mewngofnodi gyda'r manylion dilys. Bydd gweithgarwch, gan gynnwys y termau chwilio a nodir yn y maes chwilio, yn cael eu cofnodi yn erbyn enw'r defnyddiwr.

Mae'r ardaloedd diogel yn defnyddio cwcis i ddilysu bod cais am dudalen wedi dod gan ddefnyddiwr dilys. Mae'r cwci'n cael ei thynnu oddi ar eich cyfrifiadur pan rydych yn cau'r porwr.

Rydym yn defnyddio data mewn ffeiliau cofnodi i lunio ystadegau defnydd o'r wefan ac i olrhain camgymeriadau. O dan amgylchiadau arferol, nid ydym yn defnyddio'r data i adnabod ymwelydd nac i olrhain gweithgarwch ymwelydd. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gwneud hyn er mwyn adnabod gweithgarwch sy'n camddefnyddio. Os canfyddir gweithgarwch hacio posib, mae'r wefan yn cofnodi'r cyfeiriad IP ac fe gymerir cam gweithredu dilynol sy'n rhwystro mynediad i bob ymwelydd sy'n defnyddio'r cyfeiriad IP hwnnw.

Wrth gael mynediad at ein system rhannu ffeiliau, mae'n ofynnol i chi dderbyn cytundeb defnyddiwr cyn y bydd y system yn caniatáu mynediad. Y rheswm dros hyn yw er mwyn cadarnhau eich bod yn deall y monitro sy'n digwydd ac y byddwch yn ymlynu wrth y mesurau diogelwch diffiniedig.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw at ddibenion ein buddiannau cyfreithlon mewn darparu gwasanaethau a systemau TG sy'n ddiogel ac yn gweithio'n effeithiol.

Cedwir cofnodion am 12 mis cyn eu dileu'n barhaol.

Mae cyfeiriadau IP sydd â chyswllt â gweithgarwch hacio posib yn cael eu logio yn ein system ddiogelwch a'u storio am byth.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae ffeiliau log yn cael eu storio'n ddiogel mewn systemau ac maent yn hygyrch dim ond i'n cyflogeion y mae arnynt angen mynediad atynt i gyflawni cyfrifoldebau eu swyddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gwneud cais i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfreithlon, rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn pwyso a mesur unrhyw effaith bosib arnoch chi a'ch hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Os oes gennych chi unrhyw bryderon am brosesu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Cofiwch, os byddwch yn gwrthwynebu, y gall hyn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn i chi.

## Wi-fi gwesteion ac eduroam

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Pan rydych yn defnyddio ein cyfleusterau wi-fi neu eduroam i westeion, rydym yn storio cyfeiriad MAC eich dyfais, cyfeiriad IP y rhwydwaith gwesteion a neilltuwyd i'ch dyfais a'r stamp amser.

Pan fydd cleient yn dilysu gyda'i ddarparwr eduroam cartref, caiff ei enw defnyddiwr dilys ei storio ochr yn ochr â'i gyfeiriad MAC a'i stamp amser.

Mae cofnodion cyfeiriad MAC yn cael eu defnyddio i ddatrys problemau ac at ddibenion diogelwch (e.e. gallwn flocio cyfeiriad MAC o'r system os oes angen).

Caiff eich gweithgarwch pori ei gofnodi ochr yn ochr â'r cyfeiriad IP sy'n cael ei neilltuo i'ch dyfais. Rydym yn defnyddio data mewn ffeiliau cofnodi i lunio ystadegau defnydd o'r wefan ac i olrhain camgymeriadau. O dan amgylchiadau arferol, nid ydym yn defnyddio'r data i adnabod ymwelydd nac i olrhain gweithgarwch ymwelydd. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gwneud hyn er mwyn adnabod gweithgarwch sy'n camddefnyddio.

I gael mynediad i'n wi-fi i westeion, rhaid i chi lofnodi datganiad defnydd derbyniol. Y datganiad hwn yw eich cadarnhad chi eich bod yn deall ac y byddwch yn cadw at y mesurau diogelwch sy'n ofynnol i gadw'r system hon yn ddiogel. Rhaid i chi dderbyn bob tro rydych yn defnyddio'r wi-fi i westeion.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw at ddibenion ein buddiannau cyfreithlon o ran darparu gwasanaethau a systemau TG sy'n ddiogel ac yn gweithio'n effeithiol.

Cedwir pob cofnod cysylltiedig am 12 mis cyn eu dileu'n barhaol.

### Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol a gyda phwy rydym yn ei rhannu

Mae ffeiliau log yn cael eu storio'n ddiogel mewn systemau ac maent yn hygyrch dim ond i'n cyflogeion y mae arnynt angen mynediad atynt i gyflawni cyfrifoldebau eu swyddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i gorff arall ac eithrio os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod ein gwasanaethau i eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gwneud cais i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir.

Pan rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfreithlon, rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn pwyso a mesur unrhyw effaith bosib arnoch chi a'ch hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Os oes gennych chi unrhyw bryderon am brosesu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i wrthwynebu drwy anfon e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Cofiwch, os byddwch yn gwrthwynebu, y gall hyn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn i chi.

## Cyfleusterau cyfarfodydd ar-lein

### Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei phrosesu, pam ac am faint o amser

Wrth gyfranogi mewn cyfarfodydd ar-lein trwy blatfformau megis Microsoft Teams, byddwn yn casglu eich cyfeiriad e-bost (i anfon gwahoddiad atoch), eich enw, eich manylion adnabod (ID) defnyddiwr, a lle y bo'n bosibl eich llun proffil, teitl eich swydd a'ch sefydliad, a'ch rhif ffôn (os ydych yn ymuno ar ffôn). Gall yr wybodaeth hon fod yn weladwy i'r holl wahoddedigion trwy'r oriel ac yn rhestr y cyfranogwyr. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon i reoli a dilysu eich mynediad i'r cyfarfod, ac i alluogi gwahoddedigion eraill i weld pwy yw'r cyfranogwyr.

Bydd cynnwys a rennir yn y sgwrs, gan gynnwys dogfennau, ar gael i wahoddedigion hefyd. Chi sydd â rheolaeth dros eich camera a'ch microffon, a gallwch ddewis diffodd y

rhain. Gallwch hefyd ddileu eich cyfraniadau yn y sgwrs neu ddewis peidio â chyfranogi yn y sgwrs.

Bydd cyfranogwyr yn cael eu hysbysu cyn cychwyn unrhyw gyfleusterau recordio neu drawsgrifio. Gallwch ddewis cuddio pwy ydych chi, diffodd eich camera neu adael y cyfarfod.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw at ddibenion ein buddiannau dilys i ddarparu gwasanaethau a systemau TG sy'n ddiogel ac sy'n gweithio'n effeithiol.

Mae'r holl logiau cysylltiedig yn cael eu storio am 12 mis cyn cael eu dileu'n barhaol.

### Sut ydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol a chyda phwy y gallem ei rhannu

Mae ffeiliau log yn cael eu storio'n ddiogel mewn systemau ac maent yn hygyrch dim ond i'n cyflogeion y mae arnynt angen mynediad atynt i gyflawni cyfrifoldebau eu swyddi.

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol wrth unrhyw gorff arall ac eithrio lle mae hyn yn angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith neu i ddiogelu ein gwasanaethau neu eraill.

### Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir.

Pan ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ein buddiannau dilys ni, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi a'ch hawliau dan gyfreithiau diogelu data. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i wrthwynebu trwy anfon neges e-bost i gwybodaeth@medr.cymru. Cofiwch, os byddwch yn gwrthwynebu, y gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar eich cyfer.

## Mynediad at wybodaeth bersonol

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data'n rhoi hawliau penodol i chi dros eich gwybodaeth bersonol.

Mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am gasglu a defnydd o'ch gwybodaeth bersonol
- gofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol drwy wneud cais mynediad pwnc (gweler isod am fanylion)
- gofyn am gywiro gwybodaeth bersonol anghywir neu gwblhau gwybodaeth bersonol anghyflawn
- gofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol
- cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- derbyn copi o'ch gwybodaeth bersonol mewn fformat sy'n caniatáu trosglwyddo rhwydd (sy'n cael ei adnabod fel "symudedd data")
- gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol
- peidio â bod yn destun penderfyniad awtomatig neu broffilio

Mae gan yr hawliau hyn i gyd gyfyngiadau penodol gan ddibynnu ar y cais ac ar ddiben ein prosesu. Rydym wedi nodi eich hawliau drwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn ond rydym yn croesawu unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'ch hawliau. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar wefan SCG.

I ymarfer eich hawliau, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Cyfeirir at yr hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol fel gwneud cais am fynediad pwnc. Mae gennych hawl i wybod pa wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch a gallwch wneud y cais hwn yn ysgrifenedig i unrhyw rai o'n cyflogeion neu ar gwybodaeth@medr.cymru. Bydd rhaid i ni gadarnhau pwy ydych chi er mwyn prosesu eich cais.

## Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Medr yw'r rheolydd data ar gyfer unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu oddi mewn i gwmpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â deddfwriaeth diogelu data ond rydym yn croesawu unrhyw ymholiadau ynghylch prosesu eich data a byddwn yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych chi.

Cysylltwch â ni ar e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post:

**E-bost:** gwybodaeth@medr.cymru

**Ysgrifennwch i**:

2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Ein Swyddog Diogelu Data yw Alison Haggett. Mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol â'n Swyddog Diogelu Data:

**E-bost:** alison.haggett@medr.cymru

Cyfeirnod ein cofrestriad diogelu data yw ZB552558.

## Cwynion am y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol

Os ydych chi'n anhapus gyda'r ffordd mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei thrin gennym ni, cysylltwch â ni ar gwybodaeth@medr.cymru neu drwy ein Swyddog Diogelu Data a byddwn yn ceisio datrys eich problem yn anffurfiol.

Os nad ydym yn gallu datrys y mater hwn er boddhad i chi, gallwch hefyd wneud cwyn i'r awdurdod diogelu data goruchwyliol. Yn y DU, yr awdurdod hwn yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) a gellir cysylltu â'r swyddfa hon yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Caer
SK9 5AF

Rhif Ffôn: 0303 123 1113
E-bost: casework@ico.org.uk

Gwefan: https://ico.org.uk

Hefyd gallwch gysylltu â SCG yng Nghymru yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Churchill House
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif Ffôn: 029 2067 8400
E-bost: wales@ico.org.uk

## Dolenni at wefannau eraill

Mae ein gwefan yn cynnwys dolenni at wefannau eraill. Nid ydym yn gyfrifol am arferion preifatrwydd na chynnwys gwefannau eraill. Rydym yn annog yr ymwelwyr â'n gwefan i fod yn ymwybodol pan maent yn gadael ein gwefan, a darllen polisi preifatrwydd gwefannau eraill.

## Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Adolygir yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn disgrifio'n fanwl gywir sut rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol. Gellir diweddaru'r hysbysiad hwn o dro i dro, er enghraifft, pan ddaw deddfwriaeth newydd i rym neu pan ychwanegir dibenion neu systemau newydd.

Mae adolygu'r dudalen hon yn rheolaidd yn sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol o'r wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y byddwn yn ei rhannu â phartïon eraill.

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 20 Medi 2024.